OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1310 (Cy. 162)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael Tua'r Gogledd a'r Ffordd Ymadael Tua'r De, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

*Gwnaed 23 Mai 2011*

*Yn dod i rym 1 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn**(2)**:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael Tua'r Gogledd a'r Ffordd Ymadael Tua'r De, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 4, Cyfnewidfa'r A483/A525, ger Wrecsam.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

23 Mai 2011.

*G Morgan*

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru.

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru